Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd gan y Bwrdd

## Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2019/20

Mae'r Bwrdd wedi ystyried Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2019/20 yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2018. Ystyriodd y Bwrdd ddeunyddiau ategol perthnasol a gwnaethpwyd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, yn enwedig i'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio, a Jacobs (Andrew McGeoghan) a oedd wedi'i benodi i roi sicrwydd allanol.

Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol a pherthnasol, gall y Bwrdd gadarnhau, hyd y gwyddwn, fod y taliadau yn Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr Dŵr Cymru yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol amrywiol y mae'r cwmni yn ddarostyngedig iddynt o dan Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i haddaswyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, gyda'i gilydd.

Gallwn gadarnhau i gamau priodol gael eu cymryd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y mae'r ddogfen yn seiliedig arni yn gywir o fewn lefelau rhesymol o oddefiant. Mae'r ddogfen a'r wybodaeth ofynnol ychwanegol wedi'u paratoi gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau priodol a systemau rheoli mewnol ac yn unol â hynny maent wedi'u paratoi i safon y gellid yn rhesymol ei disgwyl gan ymgymerwr diwyd.

Nid oes unrhyw reolau codi tâl newydd ar gyfer gwasanaethau cysylltu newydd ar gyfer ymgymerwyr y mae eu hardaloedd wedi'u lleoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac, felly, mae'r taliadau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr wedi'u datblygu yn unol â blynyddoedd blaenorol. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw newid i gydbwysedd y taliadau rhwng datblygwyr a chwsmeriaid eraill.

Yn ystod cyfarfod y Bwrdd ar 6 Rhagfyr 2018, gwnaeth y Bwrdd ddirprwyo cyfrifoldeb am gymeradwyo'r Rhestr Taliadau Gwasanaethau i Ddatblygwyr 2019/20 (a'r wybodaeth ofynnol ychwanegol), yn dilyn cyhoeddi'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar 19 Rhagfyr 2018, i'r Prif Weithredwr.

C. A. Jones

**Chris Jones**
**Prif Weithredwr**

Ar ran y Bwrdd
21 Rhagfyr 2018